Adroddiad i'r	**Pwyllgor Craffu Cymunedau**
Dyddiad y cyfarfod	**7 Rhagfyr 2023**
Pennaeth Gwasanaeth	**Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl**
Awdur yr adroddiad	**Karen Evans, Cydlynydd Craffu**
Teitl	**Rhaglen Waith Craffu**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol (gweler y drafft yn Atodiad 1). Wrth wneud hynny gofynnir i'r Pwyllgor fyfyrio ynghylch sut y gall Craffu gyfrannu at gyflawni Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'i nod o ddod yn ddi-garbon net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030, gan hefyd roi blaenoriaeth i'r materion hynny y mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig craffu arnynt.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen gwaith i'r dyfodol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar faterion perthnasol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

3.1 ystyried y wybodaeth a ddarparwyd ac yn cymeradwyo ei raglen gwaith i'r dyfodol, ei diwygio neu'i newid fel y gwêl yn briodol;

3.2 penodi cynrychiolydd i wasanaethu ar y Grŵp Her Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad; ac

3.3 penderfynu a ddylid rhoi cyhoeddusrwydd i unrhyw negeseuon neu themâu allweddol o'r cyfarfod cyfredol yn y wasg a/neu'r cyfryngau cymdeithasol.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Erthygl 7 o Gyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn pennu cylch gorchwyl, swyddogaethau ac aelodaeth pob Pwyllgor Craffu, yn ogystal â rheolau gweithdrefnau a thrafodaethau.

4.2 Yn ôl y Cyfansoddiad mae'n rhaid i bob un o bwyllgorau craffu'r Cyngor bennu rhaglen ar gyfer ei waith i'r dyfodol a'i hadolygu'n rheolaidd. Trwy adolygu a blaenoriaethu materion, gall aelodau sicrhau bod y rhaglen waith yn cyflwyno agenda a arweinir gan yr aelodau.

4.3 Ers rhai blynyddoedd bellach mae'n arfer yn Sir Ddinbych nad yw pwyllgorau craffu'n ystyried mwy na phedwar o adroddiadau mewn unrhyw gyfarfod, yn ogystal ag adroddiad ar raglen waith y Pwyllgor ei hun. Diben hynny yw hwyluso trafodaeth fanwl ac effeithiol ar bob pwnc.

4.4 Mewn blynyddoedd diweddar mae Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i gryfhau'r swyddogaeth craffu mewn llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys defnyddio craffu fel modd o ymgysylltu â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaethau. O hyn allan, disgwylir i graffu ymgysylltu'n well ac yn amlach â'r cyhoedd gyda'r nod o sicrhau penderfyniadau gwell a fydd yn y pen draw yn arwain at well canlyniadau i ddinasyddion. Bydd Archwilio Cymru yn mesur effeithiolrwydd craffu wrth gyflawni'r disgwyliadau hyn.

4.5 Gan ystyried y weledigaeth genedlaethol ar gyfer craffu a chanolbwyntio ar yr un pryd ar flaenoriaethau lleol, argymhellodd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn ddiweddar y dylai pwyllgorau archwilio'r Cyngor ganolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol wrth bennu eu rhaglenni gwaith:

- arbedion ar y gyllideb;
- cyflawni amcanion y Cynllun Corfforaethol (gyda phwyslais arbennig ar y modd o'u cyflawni yn ystod cyfnod o galedi ariannol);
- unrhyw eitemau eraill y mae'r Pwyllgor Craffu (neu'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu) yn cytuno i roi blaenoriaeth uchel iddynt (yn seiliedig

ar y meini prawf PAPER - gweler ochr gefn y 'Ffurflen Cynnig gan Aelodau' yn Atodiad 2);

- materion brys, annisgwyl neu â blaenoriaeth uchel;
- cefnogi gwaith adfer y Cyngor yn sgil effeithiau'r argyfwng COVID-19 ar wasanaethau'r Cyngor, yr economi leol a chymunedau'r sir.

4.6 Ffurflenni Cynnig ar gyfer Craffu

Fel y crybwyllwyd ym mharagraff 4.2 uchod, mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gofyn i bwyllgorau craffu baratoi rhaglenni ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol a'u hadolygu. Er mwyn cynorthwyo'r broses o flaenoriaethu adroddiadau, os yw'r swyddogion o'r farn fod pwnc yn deilwng o'r amser i'w drafod ar raglen fusnes y Pwyllgor, mae'n rhaid iddynt wneud cais ffurfiol i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu i ystyried derbyn adroddiad ar y pwnc hwnnw. Gwneir hyn trwy gyflwyno 'ffurflen gynnig' sy'n egluro pwrpas craffu ar y pynciau a awgrymir, pwysigrwydd hynny a'r canlyniadau posibl.

4.7 Er mwyn defnyddio amser craffu'n well drwy ganolbwyntio adnoddau pwyllgorau ar archwilio pynciau'n fanwl, gan ychwanegu gwerth drwy'r broses benderfynu a sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer preswylwyr, penderfynodd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu y dylai'r aelodau, yn ogystal â swyddogion, lenwi 'ffurflenni cynnig ar gyfer craffu' yn egluro pam eu bod o'r farn y byddai'r pwnc yn elwa ar gyfraniad craffu. Fel y soniwyd uchod mae copi o'r 'ffurflen cynnig gan aelodau' i'w weld yn Atodiad 2. Ar gefn y ffurflen hon mae siart lif sy'n rhestru'r cwestiynau y dylai aelodau eu hystyried wrth gynnig eitem i graffu arnynt ac y dylai pwyllgorau eu gofyn wrth benderfynu a yw pwnc yn addas testun i'w gynnwys ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol. Os dilynir y broses hon a phenderfynu nad yw'r testun yn addas i bwyllgor craffu ei archwilio'n ffurfiol, yna gellir ystyried ffyrdd eraill o rannu'r wybodaeth neu archwilio'r mater, fel darparu 'adroddiad gwybodaeth', er enghraifft, neu os yw'r mater yn un lleol iawn gall y Grŵp Ardal Aelodau perthnasol graffu arno. Ni chaiff unrhyw eitemau eu cynnwys ar raglen gwaith i'r dyfodol heb lenwi 'ffurflen gynnig ar gyfer craffu' a chael cymeradwyaeth y Pwyllgor neu'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu i'w cynnwys ar y rhaglen. Mae'r Cydlynydd Craffu yn medru cynorthwyo â llenwi'r ffurflenni.

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet

4.8 Wrth bennu eu rhaglenni gwaith i'r dyfodol mae'n fuddiol i'r pwyllgorau craffu ystyried amserlen waith y Cabinet. At hynny, amgaeir copi o raglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet yn Atodiad 3.

5. Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu

5.1 Dan drefniadau craffu'r Cyngor mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn gweithredu fel pwyllgor cydlynu. Mae cyfarfod nesaf y Grŵp wedi'i drefnu ar gyfer 28 Tachwedd 2023.

6. Cynrychioliaeth y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor

Grwpiau Her ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor

6.1 O bryd i'w gilydd gofynnir i'r Pwyllgor benodi cynrychiolwyr i wasanaethu aramrywiol Fyrddau neu Grwpiau o fewn y Cyngor. Ar hyn o bryd mae angen i'r Pwyllgor benodi cynrychiolydd i wasanaethu ar y Grŵp Her ar gyfer y Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad. Gofynnir i'r Pwyllgor benodi cynrychiolydd i wasanaethu ar y Grŵp hwn er mwyn sicrhau rhestr gyflawn o gynrychiolwyr ar y grwpiau her ar gyfer y gwasanaethau. Mae'r rhestr gyfredol o gynrychiolwyr ar y Grwpiau Her Gwasanaeth i'w weld yn Atodiad 4.

7. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: y Sir Ddinbych a Garem?

7.1 Bydd craffu effeithiol yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei Gynllun Corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedau a dymuniadau preswylwyr. Bydd datblygu ac adolygu'r rhaglen waith gydlynol yn barhaus yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol a gwella'r canlyniadau i breswylwyr wrth ddygymod hefyd â thoriadau llym yn y gyllideb a gwasgfeydd ar adnoddau.

7.2 Er bod penderfynu ynghylch rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor ynddo'i hun yn gyfraniad niwtral at nod y Cyngor o ddod yn ddi-garbon net ac yn ecolegol

gadarnhaol erbyn 2030, bydd craffu'n effeithiol ar yr holl faterion a ddaw gerbron y Pwyllgor yn helpu i gyflawni'r uchelgais honno.

8. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

8.1 Efallai y bydd yn rhaid i wasanaethau neilltuo amser swyddogion i gynorthwyo'r Pwyllgor â'r eitemau a nodir yn y rhaglen waith ac unrhyw gamau gweithredu yn sgil ystyried yr eitemau hynny.

9. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

9.1 Ni chynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn na'i gynnwys. Bydd y Pwyllgor Archwilio, fodd bynnag, drwy ei waith yn archwilio darpariaeth gwasanaethau, polisïau, gweithdrefnau ac argymhellion, yn ystyried eu heffaith neu eu heffaith posib ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r amcanion llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

10. Pa ymgyngoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

10 Nid oedd yn ofynnol ymgynghori ynghylch yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad ei hun, fodd bynnag, ac ystyriaeth y Pwyllgor ohono, yn gyfystyr ag ymgynghori â'r Pwyllgor ynghylch ei raglen waith.

11. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

11.1 Ni chanfuwyd unrhyw risg ynglŷn â'r Pwyllgor yn ystyried ei raglen waith. Drwy adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol yn rheolaidd, fodd bynnag, gall y Pwyllgor sicrhau ei fod yn ystyried ac archwilio unrhyw risgiau a ddaw i'r amlwg a gwneud argymhellion er mwyn ymdrin â'r risgiau hynny.

12. Pŵer i wneud y penderfyniad

12.1 Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

12.2 Yn ôl Adran 7.11 o Gyfansoddiad y Cyngor bydd y pwyllgorau craffu ac/neu'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu'n gyfrifol am bennu eu rhaglenni

gwaith eu hunain gan ystyried dymuniadau’r Aelodau hynny o’r Pwyllgor nad ydynt yn Aelodau o'r grŵp gwleidyddol mwyaf ar y Cyngor.